

ADOLYGIAD O BROSIECT *CYMRAEG BOB DYDD*

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth i asesu effeithiolrwydd prosiect *Cymraeg Bob Dydd* ('y prosiect'), a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a weithredir gan Urdd Gobaith Cymru. Nod y prosiect yw ymestyn y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.
- 1.2 Comisiynwyd yr Urdd i gynnal dau brosiect peilot rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013 lle roedd dwy ffrwd o weithgarwch – gwaith mewn ysgolion i ymestyn defnydd y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a chysiau dwys i fyfyrwyr Blwyddyn 10 i 13. Yn dilyn y cyfnod peilot hwn, penderfynodd Llywodraeth Cymru wahodd tendrau am waith pellach. Y tro hwn, roedd y fanyleb ar gyfer y gwaith yn cyfuno'r ddwy elfen, gan anelu at greu dilyniant rhwng y gwaith mewn ysgolion a'r cysiau dwys. Yr Urdd oedd yn llwyddiannus wrth gyflwyno cais am y cytundeb newydd.
- 1.3 Mae'r asesiad hwn wedi ei gynnal fel rhan o werthusiad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- 1.4 Mae dwy elfen i'r prosiect, sef:
 - Cefnogi gweithgareddau drwy'r ysgol sy'n ymestyn y defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr Cymraeg ail iaith y tu allan i'w gwersi. Cynhelir rhai o'r gweithgareddau hyn o fewn yr ysgol (e.e. gweithdai drama) ac eraill y tu allan i'r ysgol (e.e. cysiau penwythnos a thripiâu).
 - Cysiau preswyl/dwys pum diwrnod i ddysgwyr blwyddyn 10 i 13

sydd yn astudio Cymraeg ail iaith TGAU neu sydd wedi dewis astudio'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.

- 1.5 Cymerodd 10 ysgol ar draws Cymru ran yn y prosiect yn ystod 2012–2013. Yn ystod 2013-2014 cynyddwyd nifer yr ysgolion a gymerodd ran yn elfen gyntaf y prosiect i 11. Gadawodd un ysgol y prosiect ac ymunodd dwy ysgol newydd. Yn ystod yr un flwyddyn, mynychodd 32 o ddysgwyr y cyrsiau dwys/preswyl.

Dibenion y prosiect

- 1.6 Elfenn 1 – Ymestyn y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth drwy weithgareddau a drefnwyd drwy'r ysgolion. Y deilliannau disgwyledig ar gyfer elfen hon y prosiect yw:

- dysgwyr TGAU, Uwch Gyfrannol (UG) a Safon Uwch Cymraeg ail iaith yn fwy hyderus i siarad Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg;
- dysgwyr TGAU, UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith yn gwneud defnydd ehangach o'r Gymraeg;
- dysgwyr TGAU, UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith yn sgwrsio gyda dysgwyr eraill yn Gymraeg yn yr ysgol;
- cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dewis cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith (lle mae'r dewis ar gael) a'r nifer sy'n dilyn UG, a Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

- 1.7 Elfenn 2 – Cynnig cyrsiau preswyl/dwys i ddysgwyr blwyddyn 10 i 13. Y deilliannau disgwyledig ar gyfer elfen hon y prosiect yw:

- mwy o awydd ymhlith dysgwyr i ddilyn cyrsiau UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith;
- cynnydd yn y nifer sy'n dilyn UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith;
- dysgwyr yn fwy hyderus i siarad Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol;
- dysgwyr yn gwneud defnydd ehangach o'r Gymraeg;
- dysgwyr yn cyfathrebu gydag eraill yn Gymraeg o fewn a thu allan i'r ysgol;
- canlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith yn gwella.

Pwrpas yr astudiaeth hon

- 1.8 Pwrpas yr astudiaeth oedd deall dylanwad y prosiect ar:

- ddeilliannau ieithyddol y dysgwyr a gymerodd ran yn y prosiect;
- agwedd dysgwyr tuag at siarad Cymraeg, eu gallu a'u hyder i

ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol y tu allan i'r dosbarth a gweithgareddau'r prosiect;

- canlyniadau TGAU a Safon Uwch Cymraeg ail iaith yn yr ysgolion sy'n rhan o'r prosiect;
- penderfyniadau dysgwyr i astudio Cymraeg ail iaith Safon Uwch;
- polisi a dulliau gweithredu'r ysgolion o ran sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth Cymraeg ail iaith.

1.9 Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar y cyfnod peilot (2012 – 2013) yn ogystal â'r cyfnod wedi hynny hyd at fis Mawrth 2014.

2. Disgrifiad o'r prosiect

2.1 Bwriad y prosiectau hyn o'r dechrau oedd cynnal gweithgareddau anffurfiol mewn ysgolion er mwyn annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Roedd y prosiectau hefyd yn cynnig cyfle i rai dysgwyr yn yr ysgolion hyn i fynychu cyrsiau preswyl/dwys yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn yn ogystal â'r gweithgareddau anffurfiol yn yr ysgol. Y bwriad oedd y byddai'r gweithgareddau a'r cyrsiau dwys yn cynyddu hyder dysgwyr i ddefnyddio'r iaith ac yn arwain at fwy o ddysgwyr yn dewis Cymraeg ail iaith fel cwrs llawn TGAU (lle'r oedd y dewis ar gael) a'i astudio fel pwnc Safon Uwch (gweler hefyd ddeilliannau disgwylidig y prosiect uchod).

Dewis ysgolion ar gyfer y prosiect

2.2 Dewiswyd sampl o 10 ysgol i gymryd rhan yn y peilot yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2013. Yr unig feini prawf a osodwyd wrth ddewis yr ysgolion oedd sicrhau eu bod yn cynrychioli trawstoriad o wahanol ardaloedd yng Nghymru. Penderfynwyd hefyd ddewis ysgolion y gallai'r Urdd weithio gyda hwy yn effeithiol. Er mwyn sicrhau hyn penderfynodd yr Urdd dargedu ysgolion yr oedd y mudiad wedi cael cysylltiad cyson â hwy yn y gorffennol, gan ddewis pum ysgol yn y de a phump yn y gogledd.

2.3 Mae'n bwysig nodi felly nad yw'r ysgolion a ddewiswyd ar gyfer y prosiect yn gynrychioliadol o ysgolion cyfrwng Saesneg ar draws Cymru. Mae angen cadw mewn cof hefyd y gallai'r dull o ddewis ysgolion fod wedi dylanwadu ar ddeilliannau'r prosiect - mae'n bosibl bod yr ysgolion a ddewiswyd yn fwy parod i weithio gyda'r Urdd a chefnogi gweithgareddau nag ysgolion eraill. Ni allwn fod yn sicr felly bod profiadau'r ysgolion hyn, a deilliannau'r prosiect, yn nodweddiadol o'r profiadau y gellid bod wedi eu disgwyl gyda grŵp ehangach neu wahanol o ysgolion.

2.4 Daeth y cyfnod peilot i ben yn 2013 ond mae'r prosiect yn parhau. Yn

ystod 2013 - 14 gadawodd un ysgol ac ymunodd dwy ysgol arall. Mae'r ysgolion a gymerodd ran yn y prosiect yn ystod 2012-14 wedi eu rhestru yn Nhabl 1 ar ddiwedd yr adroddiad.

Y gweithgareddau a gynhelir fel rhan o Efen 1 y prosiect

- 2.5 Mae'r 11 ysgol sy'n rhan o'r prosiect yn rhydd i benderfynu eu hunain pa fath o weithgaredd(au) maent am eu cynnal er mwyn cefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae'r dulliau o ddewis y gweithgaredd(au) yn amrywio o ysgol i ysgol. Mewn rhai ysgolion mae'r dewis yn seiliedig ar syniadau a gynigiwyd gan bwyllgor o ddisgyblion. Mewn ysgolion eraill yr athrawon sydd yn dewis y gweithgaredd(au) i'w cynnal.
- 2.6 Mae'r Urdd wedi cyflogi cydlynnydd i gadw cyswllt gyda'r ysgolion a chynnig cymorth iddynt wrth drefnu a chynnal y gweithgareddau a ddewiswyd. Canmolodd athrawon ar draws pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy waith y cydlynnydd yn fawr iawn ac roeddent o'r farn bod nifer o lwyddiannau'r prosiect wedi bod yn ddibynnol iawn ar frwdfrydedd a sgiliau trefnu'r cydlynnydd. Mae'r math o weithgareddau a gynhelir yn amrywio'n fawr. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys penwythnosau preswyl, triapiau i weld ffilmiau neu sioeau Cymraeg, gweithgareddau chwaraeon a drama yn yr ysgol a threfnu siaradwyr gwadd i ddod i'r ysgol i drafod sut y maent yn defnyddio'r iaith mewn bywyd pob dydd. Ar ôl dewis gweithgaredd mae pob ysgol yn medru derbyn cyllid o hyd at £1,000 i dalu costau cynnal y gweithgaredd.
- 2.7 Mae oedran y plant sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau yn amrywio. Cynhelir rhai gweithgareddau ar gyfer dysgwyr blwyddyn 7 ac 8, tra bo rhai eraill yn cael eu hanelu at ddysgwyr hŷn. Mae'r nifer sy'n cymryd rhan yn amrywio hefyd. Mae rhai gweithgareddau (e.e. cyflwyniad / perfformiad gan westeion yn yr ysgol) yn cael eu cynnal ar gyfer blwyddyn gyfan o ddysgwyr. Mae gweithgareddau eraill, megis alldeithiau, yn cael eu hanelu at grwpiau cymharol fach o ddysgwyr.

Y gweithgareddau a gynhelir fel rhan o Efen 2 y prosiect

- 2.8 Mae elfen hon y prosiect yn seiliedig ar dri chwrs preswyl yn ystod y flwyddyn:
- Cwrs 1 – blwyddyn 11 yn unig (adolygu ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith). Cynhelir y cwrs hwn yn ystod gwyliau'r Pasg;
 - Cwrs 2 – dysgwyr blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio Safon Uwch Cymraeg ail iaith. Cynhelir y cwrs hwn yn ystod wythnos ola'r tymor (canol Gorffennaf);

- Cwrs 3 – blwyddyn 10 yn unig. Cynhelir y cwrs hwn yn ystod wythnos gyntaf gwyliau'r haf (diwedd Gorffennaf).

2.9 Trefnir nifer o weithgareddau ar gyfer y dysgwyr yn ystod y cyrsiau pum diwrnod. Mae'r rhain yn cael eu haddasu yn ôl gallu ac oedran y dysgwyr ond yn gyffredinol mae pob grŵp sy'n mynychu'r cyrsiau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg i'r canlynol:

- gweithgareddau awyr agored gyda defnydd o eirfa a thermau Cymraeg;
- sesiynau dosbarth anffurfiol gyda'r tiwtor - athrawes Gymraeg o ysgol uwchradd leol. Yn ystod y sesiynau hyn mae'r tiwtor yn defnyddio termau a ddysgwyd yn y gweithgaredd awyr agored i greu barddoniaeth a darnau eraill o waith sy'n gysylltiedig â chwricwlwm ysgol Cymraeg ail iaith.

Sylwadau ychwanegol am Efen 1 ac Efen 2

- 2.10 Mae dwy elfen y prosiect wedi gosod pwyslais ar gynnig cyfleoedd i ddysgwyr weld, clywed a defnyddio'r iaith mewn cyd-destunau naturiol y tu allan i'r ysgol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys mynd â grwpiau o ddysgwyr allan am fwyd neu i siopa mewn cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio yn naturiol. Y nod yw dangos i ddysgwyr bod y Gymraeg yn iaith fyw er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol.
- 2.11 Yn ystod y cyrsiau preswyl mae'r cydlynnydd yn casglu adborth ysgrifenedig oddi wrth y dysgwyr yn ymwneud ag ansawdd y gweithgareddau yn ogystal â'r effaith y mae'r cwrs, yn eu tyb hwy, yn ei gael ar eu sgiliau ieithyddol.
- 2.12 Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, nid oes data monitro cyson o'r fath yn cael eu casglu oddi wrth ddysgwyr sy'n mynychu gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr ysgolion fel rhan o Efen 1 y prosiect.

3. Methodoleg

- 3.1 Cynhaliwyd yr astudiaeth hon yn ystod y cyfnod mis Mawrth i fis Gorffennaf 2014. Mae canfyddiadau a chasgliadau'r astudiaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod trafodaethau gyda dysgwyr, athrawon a threfnwyr a fu'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r astudiaeth hefyd yn ystyried data ar y tueddiadau yn y nifer a safodd arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith dros y ddegawd diwethaf, a chyrhaeddiad y dysgwyr.
- 3.2 Yn ystod yr astudiaeth ymwelodd Arad â phump o'r 11 ysgol a gymerodd ran yn y prosiect yn ystod blwyddyn academiaidd 2013-2014. Dewiswyd y

sampl hon o bum ysgol ar sail lleoliad a maint yr ysgolion. Ymwelwyd â thair ysgol yn y de a dwy yn y gogledd (gweler Tabl 1 ar ddiwedd yr adroddiad am restr o'r ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect yn ogystal â'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon). Yn ystod yr ymweliadau cynhaliwyd trafodaethau gyda grwpiau o ddysgwyr (36 o ddysgwyr ar draws y pum ysgol) a oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Elfen 1 y prosiect. Oherwydd natur y gweithgareddau a'r amrywiadau yn y ffordd mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno, nid yw'n bosibl bod yn bendant pa gyfran o'r holl ddysgwyr a gymerodd ran yn y prosiect ar draws yr 11 ysgol roedd y 36 hyn yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd oddi wrthynt yn cynnig trosolwg o'r gweithgareddau yr oeddynt wedi cymryd rhan ynddynt.

- 3.3 Cynhaliwyd hefyd gyfweiliadau gyda 12 o athrawon ac aelodau uwch dimau rheoli (UDR) ar draws y pum ysgol. Cyfwelwyd â phennaeth yr adran Gymraeg, a oedd yn trefnu'r gweithgareddau, ym mhob un o'r pum ysgol. Nododd swyddogion yr Urdd eu bod yn dueddol o gadw cyswllt gydag un aelod o staff ym mhob un o'r ysgolion, fel arfer pennaeth yr adran Gymraeg. Mae'r pum pennaeth Cymraeg y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr astudiaeth yn cynrychioli bron i hanner y staff ysgol sydd â chyswllt uniongyrchol â'r prosiect. Fodd bynnag, gan fod y gweithgareddau a drefnir o fewn pob ysgol wedi amrywio, mae angen cydnabod ei bod yn debygol bod profiadau ysgolion unigol yn wahanol. Mae'n bosibl felly y byddai cynrychiolwyr o'r ysgolion na chafodd eu cyf weld wedi cyflwyno tystiolaeth wahanol i'r hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.
- 3.4 Ymwelodd y tîm ymchwil hefyd â Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn, lleoliad y cyrsiau preswyl a'r cyrsiau dwys a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect. Pwrpas yr ymweliad oedd arsylwi ar enghreifftiau o weithgareddau'r prosiect, siarad gyda dysgwyr a oedd yn mynychu, a chyf weld â chydlynnydd a thiwtor y cyrsiau. Cynhaliwyd sgysiau gyda swyddogion yr Urdd a Llywodraeth Cymru a fu'n gyfrifol am gynnal a rheoli'r prosiect.
- 3.5 Fel rhan o'r astudiaeth casglwyd a dadansoddwyd data ar nifer y dysgwyr sydd wedi astudio Cymraeg ail iaith fel pwnc TGAU, UG a Safon Uwch yn ystod y degawd diwethaf, ynghyd â'r canlyniadau a gafwyd. Gellir cymharu'r tueddiadau yn y data yma dros amser ar draws yr 11 ysgol dan sylw gyda'r data cenedlaethol. Wrth wneud hynny mae'n rhaid cofio bod y data meintiol sydd ar gael yn seiliedig ar nifer gymharol fach o ddysgwyr ym mhob ysgol unigol. Mae'n anodd felly llunio casgliadau pendant yn seiliedig ar dueddiadau'r data.
- 3.6 Mae'n rhaid nodi hefyd nad yw'n bosibl priodoli dewisiadau ynghylch astudio'r Gymraeg na chanlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch o anghenraid i ddylanwad yr ymyraethau penodol hyn. Fel sy'n cael ei nodi

yn y Canfyddiadau, nid yw'r wybodaeth a gesglir ynghylch profiadau dysgwyr yn ein galluogi i fesur dylanwad y prosiect yn systematig. Yn ogystal, mae nifer o ffactorau eraill – yn cynnwys dulliau addysgu, sefyllfa bersonol dysgwyr, dylanwad rhieni, yr awydd i ddilyn pynciau eraill – sydd yn debygol o ddylanwadu ar ddewisiadau a chyrhaeddiad.

- 3.7 Nid yw'r data yn ein galluogi i ystyried y gwrthffeithiol chwaith gan nad yw'n bosibl ar hyn o bryd cymharu deilliannau'r dysgwyr â grŵp tebyg o ddysgwyr sydd heb gymryd rhan yn y gweithgareddau.
- 3.8 Mae'r astudiaeth hon felly yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar ddata ansoddol, ac yn seiliedig ar ganfyddiadau a barn dysgwyr ac ymarferwyr ynghylch eu profiadau ar ôl iddynt fod yn rhan o'r prosiect. Nid oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ein galluogi i gymharu barn cyn ac ar ôl y gweithgareddau.
- 3.9 Serch hynny, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ein galluogi i gyrraedd casgliadau ar sut mae'r prosiect yn cael ei drefnu a'i ddarparu. Mae'r dystiolaeth hefyd yn ein galluogi i amlinellu enghreifftiau o gryfderau a gwendidau'r prosiect.
- 3.10 Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at ddylanwad y prosiect ar agweddau dysgwyr tuag at yr iaith yn gyffredinol a thuag at Gymraeg ail iaith fel pwnc. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cyfeirio at ddylanwad y prosiect ar bolisiau ysgol yn ogystal â rhai o'r heriau y mae'r ysgolion a chydlynwyr y prosiect yn eu hwynebu.

4. Canfyddiadau

Agwedd dysgwyr tuag at siarad Cymraeg, a'u parodrwydd i siarad Cymraeg

- 4.1 Un pwynt cyffredin a godwyd yn ystod yr ymweliadau â'r ysgolion a Gwersyll yr Urdd oedd nad oedd dysgwyr ar draws yr ysgolion yn cael llawer o gyfle o ddydd i ddydd i glywed na defnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth. I'r dysgwyr hyn, yr ysgol yw'r cyswllt pennaf sydd ganddynt â'r Gymraeg. Fel nodwyd yn gynharach, nod y prosiect yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr weld, clywed a defnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol. Nododd dysgwyr yn ystod cyfweiliadau bod cyfleoedd o'r fath yn ddefnyddiol, a bod clywed yr iaith yn cael ei siarad yn gymdeithasol wedi bod yn agoriad llygad iddynt.
- 4.2 Cyfeiriodd sawl un o'r athrawon, a swyddogion yr Urdd sy'n rheoli'r prosiect, bod y cyfle i glywed yr iaith yn cael ei defnyddio'n gymdeithasol yn cyflwyno termau a geiriau Cymraeg newydd i'r dysgwyr. Roedd yr athrawon yn ystyried bod hyn yn ymestyn gorwelion ieithyddol y dysgwyr. Roedd nifer o'r athrawon hefyd o'r farn mai gweithgareddau ymarferol

(e.e. rafftio dŵr gwyn a gweithdai drama yn yr ysgol, lle'r oedd angen i'r dysgwyr ddysgu a defnyddio termau Cymraeg) oedd yn rhoi'r cyfleoedd gorau iddynt ddefnyddio'r iaith ac i ehangu eu geirfa y tu allan i'r dosbarth. Soniodd yr athrawon yn ogystal bod gweithgareddau o'r fath yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r termau a ddysgwyd mewn gwersi dosbarth, neu fel rhan o sesiynau tiwtor y cyrsiau preswyl. Ar y llaw arall, nododd athrawon nad yw rhai gweithgareddau (e.e. triapiau i ganolfan bowlio deg, lle nad oedd dysgwyr yn derbyn unrhyw hyfforddiant) yn rhoi'r un cyfle iddynt ddefnyddio termau Cymraeg newydd. Yn yr achosion hyn roedd y dysgwyr yn tueddu i siarad Saesneg yn unig gyda'i gilydd.

- 4.3 Yn ôl nifer o'r athrawon y cyfwelwyd â hwy, ymddengys bod elfennau o'r gweithgareddau ysgol yn cael effaith bositif ar allu ieithyddol y rhai sy'n cymryd rhan. Fodd bynnag mae maint yr ymyraethau (h.y. oriau a nifer y gweithgareddau) yn fach o'i gymharu â'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y dysgwyr (e.e. dylanwad athrawon unigol, dewisiadau pynciau eraill sydd ar gael).
- 4.4 Ymddengys o'r dystiolaeth sydd ar gael bod y cyrsiau dwys / preswyl pum diwrnod yn cael mwy o ddylanwad ar hyder a gallu ieithyddol y dysgwyr nag yw gweithgareddau Elfen 1 y prosiect. Mae'n bosibl bod hyn i raddau yn gysylltiedig â'r ffaith bod mwy o ddata monitro yn cael ei gasglu ar gyfer Elfen 2 y prosiect.
- 4.5 Er bod athrawon a swyddogion yr Urdd yn gallu cynnig enghreifftiau o ddysgwyr yn gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith yn ystod y gweithgareddau a gynhelir yn Elfen 1 o'r prosiect, nid yw hwn yn allbwn sydd yn cael ei fonitro na'i gofnodi'n rheolaidd. Mae mwy o ddata monitro cyson, ac felly mwy o dystiolaeth o ddylanwad, yn cael ei gasglu ar gyfer Elfen 2 y prosiect. Fodd bynnag nid yw'r naill elfen na'r llall yn monitro a yw'r dysgwyr sydd yn cymryd rhan yn siarad mwy o Gymraeg gyda'i gilydd a / neu gydag eraill y tu hwnt i'w gweithgareddau neu'r cyrsiau dwys.

Dylanwad ar ddewis dysgwyr i astudio Cymraeg ail iaith, a'u cyrhaeddiad ieithyddol

- 4.6 Mae nifer y dysgwyr a ddilynodd y cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson yn ystod y cyfnod 2005 i 2014. Yn ystod yr un cyfnod mae nifer yr ymgeiswyr cwrs byr TGAU wedi cynyddu (dros 30 y cant o gynnydd). Mae nifer yr ymgeiswyr Cymraeg ail iaith Safon Uwch wedi gostwng 32 y cant ar draws Cymru yn y cyfnod 2005 i 2014. Arhosodd nifer y dysgwyr a ddilynodd y cwrs UG Cymraeg ail iaith yn gymharol gyson yn ystod y cyfnod 2005 i 2013, ond gwelwyd gostyngiad mawr yn 2014, gyda nifer y cofrestriadau yn 2014 28 y cant yn

is nag yn 2005.¹

- 4.7 Wrth edrych ar yr un data ar draws yr 11 ysgol sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn, nid oes patrymau pendant i'w gweld sy'n dilyn neu sy'n groes i'r tueddiadau cenedlaethol. Mae'r niferoedd sy'n dilyn cwrs llawn TGAU a/neu gyrsiau UG a Safon Uwch wedi cynyddu mewn rhai ysgolion yn ystod y cyfnod 2005 i 2014, tra bod y niferoedd wedi gostwng mewn ysgolion eraill.
- 4.8 Mae canran y dysgwyr ar draws Cymru a enillodd radd A*-C yn y cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith wedi cynyddu o 68 y cant yn 2005 i 77 y cant yn 2014. Gwelir patrwm tebyg yn ystod y cyfnod hwn yn y canlyniadau ar draws yr 11 ysgol (er bod y canrannau a gyrhaeddodd gradd A*-C ar draws yr 11 ysgol ar gyfartaledd yn uwch na'r ganran yn genedlaethol (83 y cant ar gyfartaledd ar draws yr 11 ysgol o'i gymharu â 77 y cant yn genedlaethol).
- 4.9 Mae canran y dysgwyr a enillodd A*-C ar ôl dilyn cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith ar draws Cymru wedi aros yn gymharol isel rhwng 2005 a 2014 (rhwng 45 a 48 y cant). Mae canlyniadau ar draws yr 11 ysgol yn amrywio'n sylweddol: mewn un ysgol ni enillodd yr un dysgwr radd A*-C ers 2005² tra bod 76 y cant o ddysgwyr a ddilynodd y cwrs byr wedi cyrraedd gradd A*-C ers 2005 mewn ysgol arall. Ar gyfartaledd ar draws yr 11 ysgol, mae'r ganran yn debyg i'r canrannau cenedlaethol (50 y cant).
- 4.10 Mae canran y dysgwyr a enillodd A*-C yn dilyn y cwrs UG a Safon Uwch ar draws Cymru hefyd wedi aros yn gyson yn ystod y degawd ddiwethaf (70 y cant ar gyfartaledd ar gyfer y ddau gymhwyster). Mae'r tueddiadau ar draws ysgolion unigol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac o ysgol i ysgol.
- 4.11 Nid oes patrwm clir o gynnydd nac o ostyngiad yn nifer y dysgwyr ar draws yr 11 ysgol a gafodd A*-C UG, Safon Uwch neu TGAU ers i'r prosiect ddechrau.
- 4.12 Mae'r anghysondeb yn nhueddiadau'r data yn adlewyrchu'r cyfyngiadau a wynebwr wrth ddadansoddi data ar gyfer nifer gymharol fach o ddysgwyr ym mhob ysgol. Yn ogystal â hyn, dim ond ers 2012 mae'r prosiect wedi rhedeg, felly mae'n debygol iawn ei bod hi'n rhy gynnar i dueddiadau pendant amlygu eu hunain. Rhaid nodi hefyd bod nifer o ddylanwadau eraill sy'n debygol o effeithio ar ganlyniadau a niferoedd y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg ail iaith UG a Safon Uwch sydd y tu hwnt i reolaeth y prosiect, er enghraifft dylanwad rhieni, agweddau dysgwyr tuag at y pwnc, a dewisiadau dysgwyr i astudio pynciau eraill.

¹ Ffynhonnell y data: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

² Dylid nodi mai niferoedd bach a ddilynodd y cwrs byr yn yr ysgol hon rhwng 2005 a 2014.

- 4.13 Mae cydlynnydd y prosiect a thiwtor y cyrsiau dwys/preswyl yn casglu barn y dysgwyr sy'n mynychu ar ansawdd y gweithgareddau ac ar yr effaith y mae'r gweithgareddau wedi ei gael, yn eu tyb nhw, ar eu sgiliau ieithyddol. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon ar ei phen ei hun yn cynnig tystiolaeth bod y cyrsiau yn dylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr ynghylch astudio Cymraeg ail iaith ar lefel UG a Safon Uwch. Nid oes tystiolaeth ar ddeilliannau'r prosiect yn cael ei chofnodi'n gyson yn dilyn y gweithgareddau ysgol chwaith.
- 4.14 Er mwyn casglu tystiolaeth fwy cadarn byddai angen gosod cwestiynau mwy pendant i'r dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau ymwned â'u parodrwydd i siarad Cymraeg ac i astudio Cymraeg ail iaith ar lefel UG a Safon Uwch. Hyd yn oed wedyn byddai'n rhaid cydnabod mai safbwyntiau goddrychol fyddai'r rhain hefyd i raddau helaeth.
- 4.15 Mae'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn awgrymu bod y prosiect yn gwella sgiliau ieithyddol disgyblion, yn ogystal â'u hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae hyn yn ei dro yn awgrymu y gallai'r gwelliannau hyn yn sgiliau ieithyddol y disgyblion arwain at welliant yn eu cyrhaeddiad mewn Cymraeg ail iaith ar lefel TGAU a Safon Uwch. Fodd bynnag, gan nad yw'r deilliannau hyn yn cael eu cofnodi'n gyson fel rhan o'r prosiect nid oes tystiolaeth gadarn ar gael i gefnogi hyn.
- 4.16 Yn ystod y cyrsiau preswyl mae'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau a gynhelir gan diwtor profiadol. Gwelwyd yn ystod yr astudiaeth bod y sesiynau hyn yn anffurfiol ac yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd yn hwyl i'r dysgwyr, ond ar yr un pryd mae ffocws a chyswllt clir gydag elfennau o'r cwricwlwm Cymraeg ail iaith. Dylai hyn hefyd gryfhau gallu ieithyddol y rhai sy'n mynychu ac felly hefyd gyfrannu at wella canlyniadau a chyrhaeddiad Cymraeg ail iaith. Serch hynny nid oedd fframwaith monitro mewn lle yn ystod cyfnod yr astudiaeth i gadarnhau hynny.³ Er mwyn dangos tystiolaeth o'r fath byddai angen i athrawon a / neu swyddogion yr Urdd gofnodi gallu neu sgiliau iaith Gymraeg a'r graddau arholiad a ddisgwyli'r gan ddysgwyr unigol cyn ac ar ôl y prosiect.

Dylanwadau ar bolisïau ysgol

- 4.17 Gwelir o'r sylwadau a gynigiwyd gan nifer o aelodau UDR bod y prosiect yn cefnogi polisïau ysgol sy'n anelu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol a sicrhau cynnydd mewn darpariaeth Cymraeg ail iaith. Yn yr ysgolion lle'r oedd pwyslais ar bolisïau o'r fath, roedd aelodau'r UDR yn ystyried y prosiect hwn fel rhywbeth gwerthfawr sy'n ychwanegu grym i'r cyfeiriad polisi roeddent yn anelu ato. Yn yr ysgolion lle nad oedd cefnogaeth gref i'r iaith Gymraeg na phwnc Cymraeg ail iaith ymysg yr

³ Mae fframwaith o'r fath wedi ei gyflwyno i broses monitro'r prosiect ers i'r astudiaeth hon ddod i ben.

UDR, nid oedd yn amlwg fod y prosiect yn cael llawer o ddylanwad, os o gwbl, ar agweddau neu bolisïau mewnol.

Heriau

- 4.18 Nododd mwyafrif yr athrawon mai diffyg amser yw'r her fwyaf y maent yn ei hwynebu wrth geisio trefnu elfennau o'r prosiect. Mewn rhai achosion nid yw'r athro neu athrawes ysgol yn gallu neilltuo digon o amser i gasglu syniadau at ei gilydd ynghylch y math o weithgareddau yr hoffent eu cynnal. Mae'r cydlynnydd yn cynnig help i drefnu'r gweithgareddau ond mae rhai ysgolion yn disgwyl mwy o gyngor na hyn ac yn disgwyl arweiniad a chefnogaeth bellach gan yr Urdd er mwyn datblygu syniadau ynglŷn â'r mathau o weithgareddau a fyddai'n addas yn ogystal â chymorth i'w trefnu a'u cynnal.
- 4.19 Mewn rhai achosion, lle nad yw'r ysgol wedi cynnig syniadau am unrhyw weithgareddau, mae cydlynnydd y prosiect wedi trefnu gweithgareddau ar eu rhan.
- 4.20 Mae agwedd a meddylfryd yr ysgol hefyd yn dylanwadu ar nifer y gweithgareddau sy'n cael eu trefnu. Mewn ysgolion lle mae'r athrawon a'r UDR yn frwdfrydig dros y prosiect mae syniadau pendant ynghylch y mathau o weithgareddau maent yn awyddus i'w cynnal yn dod i'r amlwg.
- 4.21 Yn ôl cydlynnydd y prosiect un o'r heriau mwyaf wrth drefnu'r cyrsiau preswyl yw annog pobl ifanc i'w mynychu. Mae'r cyrsiau unigol yn darparu lleoedd i hyd at 15 o ddysgwyr ar y tro. Nid yw'r ysgolion bob amser yn caniatáu i ddysgwyr gymryd amser i ffwrdd o'r ysgol yn ystod y tymor i fynychu'r cyrsiau, ac mae'n anodd ennyn diddordeb dysgwyr i fynychu cyrsiau yn ystod gwyliau'r ysgol. I ddysgwyr unigol mae'r penderfyniad i fynychu neu beidio yn aml iawn yn ddibynnol ar benderfyniadau eu ffrindiau. Mewn rhai achosion mae penderfyniad munud olaf un dysgwr i beidio â mynychu yn gallu arwain at nifer o'i ffrindiau yn tynnu allan hefyd.
- 4.22 Er mwyn sicrhau bod nifer ddigonol yn mynychu mae trefnwyr y cyrsiau, o bryd i'w gilydd, yn estyn y cyfle i ysgolion y tu allan i'r 11 sy'n rhan o'r prosiect i gymryd rhan. O ganlyniad mae rhai o'r grwpiau ar y cyrsiau yn cynnwys dysgwyr nad ydynt wedi cael cyswllt blaenorol â'r prosiect, h.y. drwy'r gweithgareddau a gynhaliwyd mewn ysgolion. Mae hyn yn awgrymu fod diffyg dilyniant neu gyswllt cryf rhwng dwy elfen y prosiect, h.y. y gweithgareddau a gynhaliwyd drwy'r ysgol a'r cyrsiau dwys pum diwrnod. Roedd hyn yn amlwg ar adegau yn ystod ymweliadau ysgol. Er enghraifft, nid oedd pob un o'r athrawon a oedd yn cydlynu'r gweithgareddau ysgol i'w gweld yn ymwybodol o'r cyrsiau dwys. Yn ôl Llywodraeth Cymru, fe ofynnwyd i'r Urdd gryfhau'r agwedd hon o'r

prosiect ar ôl y flwyddyn gyntaf. Yn ogystal â hyn nid yw'r gweithgareddau ysgol wedi eu hanelu bob amser at ddysgwyr o'r oedran a all fynychu'r cyrsiau dwys.

- 4.23 Er bod y cyrsiau dwys wedi eu cynllunio ar gyfer dysgwyr o wahanol flynyddoedd ysgol, oherwydd yr her o sicrhau nifer ddigonol o ddysgwyr, mae'r grwpiau mewn rhai achosion yn cynnwys pobl ifanc o wahanol flynyddoedd ysgol a dysgwyr sy'n amrywio'n sylweddol o ran eu gallu ieithyddol. O ganlyniad i hyn mae angen i'r cydlynnydd a'r tiwtor fod yn hyblyg yn y ffordd maent yn cyflwyno'r cwrs. Soniodd y tiwtor bod angen dechrau'r wythnos gyda nifer o syniadau ac addasu'r rhain yn ôl gallu, diddordebau ac agweddau'r dysgwyr. Soniodd hefyd bod angen gwneud hyn gyda phob grŵp ac nid yn unig gyda'r rhai sy'n cynnwys dysgwyr o wahanol oedrannau.

5. Casgliadau

- 5.1 Mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o ddwy elfen y prosiect hwn yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae rhai gweithgareddau hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr glywed yr iaith (am y tro cyntaf mewn rhai achosion) yn cael ei defnyddio fel rhan o fywyd bob dydd. Adrodda dysgwyr eu hunain bod y gweithgareddau yn cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith ac yn ymestyn eu geirfa a'u sgiliau iaith. Serch hynny nid yw'r deilliannau hyn yn cael eu cofnodi'n gyson yn dilyn y gweithgareddau ac felly nid oes tystiolaeth gadarn ar gael i gefnogi hyn.
- 5.2 Cafwyd enghreifftiau o weithgareddau'r prosiect yn dylanwadu ar hyder a gallu dysgwyr i ddefnyddio'r iaith yn yr ystafell ddosbarth. Nid oes tystiolaeth ar gael, fodd bynnag, i ddangos a yw'r prosiect yn annog dysgwyr i siarad Cymraeg gyda'i gilydd, neu gydag eraill, y tu hwnt i'r gweithgareddau neu'r cyrsiau dwys.
- 5.3 Nid oes tystiolaeth gadarn ar gael chwaith bod y prosiect yn annog rhagor o ddysgwyr i astudio Cymraeg ail iaith ar lefel UG na Safon Uwch nac yn gwella canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn y pwnc.
- 5.4 Mae llwyddiannau'r prosiect hyd yma wedi bod yn ddibynnol iawn ar frwdfrydedd a sgiliau trefnu'r cydlynnydd. Roedd athrawon ar draws pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn canmol gwaith y cydlynnydd yn fawr iawn. Serch hynny roedd cydnabyddiaeth ei bod yn anodd i un person gydlynu'r holl weithgareddau ar draws yr ysgolion yn ogystal â'r cyrsiau preswyl.
- 5.5 Mae llwyddiant y prosiect hefyd yn ddibynnol ar agwedd a meddylfryd yr ysgolion eu hunain. Mewn ysgolion lle mae'r gefnogaeth tuag at y Gymraeg yn gyffredinol a Chymraeg ail iaith fel pwnc yn gryf ymysg yr

uwch dim rheoli, mae'r prosiect i'w weld yn cael effaith cadarnhaol ar agweddau, defnydd a diddordeb dysgwyr yn yr iaith. Mewn ysgolion lle nad yw'r gefnogaeth at yr iaith mor gryf, nid yw'r prosiect i'w weld yn cael yr un dylanwad ar agweddau a diddordeb y dysgwyr.

- 5.6 Mae'n ymddangos felly bod y prosiect yn fwy tebygol o gyrraedd ei ddeilliannau disgwyliedig os yw'r ysgol ei hun, a'r UDR yn arbennig, yn dangos cefnogaeth glir i'r iaith.
- 5.7 Ymddengys o'r dystiolaeth sydd ar gael bod y cyrsiau dwys / preswyl pum diwrnod yn cael mwy o ddylanwad ar hyder a gallu ieithyddol y dysgwyr nag yw gweithgareddau Elfen 1 y prosiect.
- 5.8 Roedd trefnwyr y prosiect yn ystyried Elfen 1 y prosiect (h.y. gweithgareddau ysgol) yn ffordd o arwain neu gyflwyno dysgwyr tuag at Elfen 2 y prosiect (h.y. y cyrsiau dwys) yn unol â'r cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Nid yw'n amlwg bod ysgolion yn gwneud y cyswllt hwn rhwng dwy elfen y prosiect. Roedd rhai athrawon a oedd wedi cydlynu'r gweithgareddau ysgol yn dweud nad oeddynt yn ymwybodol o'r cyrsiau dwys. Roedd athrawon eraill yn ystyried y cyrsiau dwys fel cyfleoedd a oedd ar wahân i'r gweithgareddau ysgol.
- 5.9 Ar y cyfan ymddengys bod dylanwad y prosiect yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae maint yr ymyraethau (o ran oriau, a nifer gweithgareddau) yn gyfyngedig o'i gymharu â'r ffactorau eraill sy'n gallu dylanwadu ar y dysgwyr. Mae yna derfyn felly i ba mor ddylanwadol mae'n gallu bod.
- 5.10 Yn ogystal â hyn, gan fod ffactorau eraill sydd yn gallu dylanwadu ar brofiadau disgyblion, mae'n anodd priodoli unrhyw newid yng nghyfranogiad neu gyrhaeddiad y dysgwyr i'r prosiect hwn. Mae angen cydnabod hefyd y cyfyngiadau o ran mesur effaith sydd ynghlwm â'r ffaith fod y prosiect yn cael ei weithredu mewn nifer gyfyngedig o ysgolion.

Tabl 1: Ysgolion a gymerodd ran ym mhrosiect yr Urdd 2012 – 2014 ⁴

Ysgol Gyfun Y Bont Faen* (**)
Ysgol Uwchradd Caerdydd
Ysgol Uwchradd Llanisien
Ysgol Gyfun Radur*
Ysgol Bryn Eliau
Ysgol Eirias*
Ysgol Uwchradd Prestatyn
Ysgol Castell Alun
Ysgol Uwchradd y Fflint*
Ysgol Dinas Brân (**)
Ysgol Cil y Coed*
Ysgol Y Ddraenen Wen [x]

* ysgolion yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r astudiaeth

(**) ysgolion a ymunodd â'r prosiect yn 2013 - ar ôl y cyfnod peilot

[x] ysgolion a adawodd y prosiect yn dilyn y cyfnod peilot

Awduron yr Adroddiad: Arad

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Catrin Redknap

Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 20 825 720

Ebost: catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 19 Ionawr 2016

ISBN: 978-1-4734-5694-5

© Hawlfraint y Goron 2016



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

⁴ Mae'r prosiect yn parhau gyda'r un ysgolion.